

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010

Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet – Darpariaeth Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir Ychwanegol yn Orfodol

Rheoliad 6(1)			
O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl derbyn), mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu p'un ai a fydd yn derbyn y ddarpariaeth arfaethedig yn rhan o'r cais ai peidio.	Dyddiad derbyn	Dyddiad disgwyliedig 28 niwrnod	Dyddiad penderfyniad
	26 Mai 2023	23 Mehefin 2023	2 Mehefin 2023
Rheoliad 6(2)		Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio	
Rheoliad 4 – Y weithdrefn ragnodedig ar gyfer caffael tir yn orfodol			
Mae Rheoliadau 5 i 19 yn rhagnodi'r weithdrefn at ddibenion yr amod yn is-adran (4) adran 123 (tir y gall awdurdodi caffael yn orfodol ymwneud ag ef) ac mae'n berthnasol pan—			
(a) gynigir cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir ychwanegol yn orfodol mewn gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu;	<p>Yn ei lythyr dyddiedig 26 Mai 2023 [CR2-016] (a dderbyniwyd ar ôl oriau gwaith y diwrnod hwnnw ac a weithredwyd ddydd Mawrth 30 Mai 2023), cyflwynodd yr Ymgeisydd Gais i Newid ffurfiol yn ceisio dau newid. Mae'r newidiadau a geisir yn cynnwys caffael tir ychwanegol yn orfodol, yn ogystal ag Leiniau Rhif ceisio newid natur y caffaeliad gorfodol a geisir (is-fuddiannau wyneb yn unig i gaffael tir yn llawn). Fel y cyfryw, mae'r Cais i Newid yn chwilio am darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir ychwanegol yn orfodol mewn Gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu ac, mewn perthynas â Leiniau Rhif gwahanol, mae'n ceisio newid natur y caffaeliad gorfodol a geisir. Mae tir y tu hwnt i derfynau presennol y Gorchymyn yn cynnwys Lleiniau Rhif 16 06a; 16-07; 16-08. Mae'r tir lle ceisiodd natur y caffaeliad gorfodol newidiadau yn cynnwys Llain Rhif 19-04d.</p> <p>Mae 'Hysbysiad o fwriad i gyflwyno Cais i Newid' [AS-066] yr Ymgeisydd sy'n nodi bod y newidiadau "<i>wedi cael eu paratoi i ymateb i ymgynghoriad parhaus â thirfeddianwyr a Phartïon â Buddiant.</i>" Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi nodi ei fod "<i>...yn disgwyl y bydd</i></p>		

	<p><i>Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 Rheoliad 4 yn berthnasol i'r newidiadau a geisir ac y bydd angen ymgynghori o dan y rheoliadau hynny.</i></p> <p>Mae Newid 2 yn effeithio ar fuddiannau perchnogaeth newydd mewn perthynas â Lleiniau Rhif 16-06a; 16-07; and 16-08, ac mae posibilrwydd y gallai Newid 1 ymyrryd mwy â hawliau tirfeddianwyr mewn perthynas â Llain Rhif 19-04d.</p>
(b) nad yw unigolyn â buddiant yn y tir ychwanegol yn cydsynio i gynnwys y ddarpariaeth	<p>O ran y lleiniau ychwanegol a geisir, mae 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid (2)' [AS-066] yr Ymgeisydd yn nodi bod y Newidiadau "<i>wedi cael eu paratoi i ymateb i ymgynghoriad parhaus â thirfeddianwyr a Phartïon â Buddiant.</i>" Fodd bynnag, nid oes cadarnhad gan yr unigolion hynny sydd â buddiant yn y tir ychwanegol (gan gynnwys yr unigolion hynny yr effeithir arnynt lle mae posibilrwydd y gellid ymyrryd mwy â hawliau tirfeddianwyr), eu bod yn cydsynio i gynnwys y ddarpariaeth, wedi'i ddarparu yn Llythyr Eglurhaol yr Ymgeisydd sy'n cyd-fynd â'r Cais i Newid (2) nac yn unrhyw un o'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais. At hynny, nid oes arwydd p'un a yw tirfeddiannwr tir ychwanegol Llain Rhif 16 06a; 16-07; or 16-08 yn cytuno i'r tir ychwanegol hwnnw gael ei gynnwys ai peidio. Er y gallai'r Ymgeisydd fod yn ceisio cael yr hawliau sy'n ofynnol trwy gytundeb gwirfoddol, nid yw wedi cadarnhau y bydd hyn yn bosibl.</p>
Crynodeb – Rheoliad 4	Mae Rheoliadau 5 i 9 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 yn berthnasol i'r Ddarpariaeth Arfaethedig.
Rheoliad 5 – Darpariaeth Arfaethedig	
Mae'n rhaid i'r ymgeisydd anfon manylion y ddarpariaeth arfaethedig at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'n rhaid i'r manylion hynny—	
(a) fod ar ffurf llyfr cyfeirio neu, os oes llyfr cyfeirio wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, atodiad i'r llyfr hwnnw;	Mae cyflwyniad yr Ymgeisydd yn cael ei wneud yn unol ag Adran 123(4) Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliad 5 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

	<ul style="list-style-type: none"> Llyfr Cyfeirio [CR2-013].
<p>(b) cynnwys—</p> <p>(i) cynllun tir sy'n amlygu'r tir sy'n ofynnol fel tir ychwanegol, neu y mae'r ddarpariaeth ychwanegol yn effeithio arno; a</p> <p>(ii) datganiad o resymau pam mae angen y tir ychwanegol a datganiad sy'n nodi sut y bwriedir i orchymyn sy'n cynnwys awdurdodiad ar gyfer caffael y tir ychwanegol yn orfodol gael ei ariannu.</p>	<p>Mae cyflwyniad yr Ymgeisydd yn cael ei wneud yn unol ag Adran 123(4) Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliad 5 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010. Roedd y datganiad a oedd yn cyd-fynd â'r cyflwyniad hwnnw'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynlluniau tir yn dangos y newidiadau arfaethedig i derfynau'r Gorchymyn [CR-004]; Mae dogfen yr Ymgeisydd, sef 'Llythyr Clawr Gais i Newid 2' [CR2-016] yn nodi bod disgrifiad manwl o bob newid a'r cyfiawnhad iddo wedi'i ddarparu yn ei 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid (2)' [AS-066]. Yn ogystal, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno Datganiad o Resymau [CR2-011] gyda'r Cais i Newid sy'n mynd i'r afael â pham mae angen caffael hawliau dros y Tir Ychwanegol mewn cysylltiad â'r Datblygiad Arfaethedig; ac Mae Datganiad o Resymau [CR2-011] yr Ymgeisydd hefyd yn nodi sut y bwriedir i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei ariannu.
<p>Crynodeb – Rheoliad 5</p>	<p>Mae'r Llyfr Cyfeirio fel y'i caniateir gan Reoliad 5. Mae Cynlluniau Tir wedi cael eu darparu i amlygu'r tir ychwanegol, ynghyd â'r adroddiad sy'n ofynnol (ar ffurf Datganiad o Resymau'r Ymgeisydd), sy'n esbonio sut byddai caffael y tir ychwanegol yn orfodol yn cael ei ariannu.</p> <p>Ystyrir bod y wybodaeth a ddarparwyd yn bodloni gofynion Rheoliad 5.</p>

**Aelod arweiniol yr
Awdurdod Archwilio**

Christopher Butler

Llofnod *Christopher Butler*

Dyddiad: 2 Mehefin 2023

Rheolwr Achos

Jake Stephens

Llofnod *Jake Stephens*

Dyddiad: 2 Mehefin 2023